# Datganiad o Fwriad ar gyfer RhCY4

**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd RhCY4 Hyblyg** Cyngor Caerdydd

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Caerdydd**

**Dyddiad Cyhoeddi: 15/02/2024**

**Rhif y fersiwn: 2.0**

**Cyhoeddiad ar y wefan:** https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Budd-daliadau-a-Grantiau/Effeithlonrwydd-ynni-a-thlodi-tanwydd/Pages/default.aspx

**Mae Cyngor Caerdydd wedi ffurfio partneriaeth ag EON ar gyfer darparu RhCY4 Hyblyg.** Ni fydd y Cyngor ond yn llofnodi Datganiadau ar gyfer aelwydydd cymwys sydd wedi'u hatgyfeirio drwy ein partner darparu ac ni fydd yn gweithio gydag unrhyw drydydd partïon y tu allan i hyn.

**Dylai pob gosodwr ac asiant rheoli sy'n dymuno prosesu Datganiadau RhCY** Hyblyg gysylltu ag EON: **eoncommunityprojects@eonenergy.com**

**Dylai pob deiliad tŷ sy'n credu y gallent fod yn gymwys ar gyfer RhCY**4 Hyblyg o dan y meini prawf cymhwyso isod wneud cais drwy EON:

**Gwefan:** **EON - gwefan RhCY**4
**Ffôn: 0333 202 4422**

**Noder nad yw bodloni meini prawf cymhwysedd hyblyg y Cyngor, a chyhoeddi Datganiad gan Gyngor Caerdydd, yn gwarantu gosod mesurau. Bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Cyflenwr Ynni a fydd yn darparu gosodiadau.**

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Caerdydd ar gyfer y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (RhCY4) sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2026.

Bydd y cynllun RhCY4 yn canolbwyntio ar roi cymorth i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Bydd y cynllun yn gwella'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon gan helpu i gyflawni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net y llywodraeth.

“RhCY4 Hyblyg” yw’r enw ar y dull hyblyg i Awdurdodau Lleol (ALlau) adnabod aelwydydd tlawd yn nhermau tanwydd ac aelwydydd sy’n agored i niwed, a fyddai’n cael budd o fesurau arbed gwres ac ynni.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad (DoF) hwn ar 15/02/24 i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a gaiff eu datgan yn ateb gofynion o leiaf un o'r pedwar llwybr isod.

**Llwybr 1:**Aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac aelwydydd sector rhentu preifat sydd ag incwm blynyddol gros o lai na £31,000. Nid yw maint, cyfansoddiad na rhanbarth yr eiddo yn effeithio ar y cap.

**Llwybr 2:**Aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac aelwydydd sector rhentu preifat sy'n bodloni cyfuniad o'r is-feini prawf canlynol:

| |
|---|
| **Is-faen prawf 1)** Cartrefi yn narpariaeth AGEHI 1-3 Cymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[1] |
| **Is-faen prawf 2)** Mae gan berson sy'n byw yn yr eiddo hawl i ostyngiad Treth Gyngor ar sail incwm isel. |
| **Is-faen prawf 3)** Ystyrir bod person sy'n byw yn yr eiddo yn agored i'r oerfel o dan Ganllaw NG6: Argymhelliad 2 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), am reswm heblaw am eu hincwm isel[2]* |
| **Is-faen prawf 4)** Mae plentyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, oherwydd incwm isel[3] |
| **Is-faen prawf 5)** Mae person sy'n byw yn yr eiddo yn cael ei gefnogi gan gynllun a sefydlwyd gan yr ALl/GDd a enwir ac a ddisgrifir yn ei Ddatganiad o Fwriad ac a sefydlwyd i gefnogi pobl sy'n byw ar incwm isel ac yr ystyrir eu bod yn agored i'r oerfel o dan Ganllaw NG6 NICE. |
| **Is-faen prawf 6)** Aelwyd a atgyfeiriwyd at yr ALl gan y cyflenwr ynni neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu Citizens Advice Scotland, oherwydd eu bod yn cael trafferth talu eu biliau trydan a/neu nwy. |
| **Is-faen prawf 7) [Noder, mae is-faen prawf 7 ar gyfer data dyledion sy'n eiddo i gyflenwyr ac fe'i rhestrir yma er gwybodaeth yn unig].** Aelwydydd a nodwyd drwy ddata dyledion cyflenwyr ynni. Mae'r llwybr hwn yn caniatáu i gyflenwyr y mae dyledion yn ddyledus iddynt ddefnyddio |

[1] Cyhoeddwyd yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019
[2] https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations#recommendation-2-ensure-there-is-a-singlepointofcontact-health-and-housing-referral-service-for
[3] O dan adran 512ZB(4) o Ddeddf Addysg 1996 neu adran 53 o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980

eu data dyledion eu hunain i nodi naill ai aelwydydd nad oes ganddynt fesuryddion rhagdalu (di-PPM), neu aelwydydd â mesuryddion rhagdalu (PPM)*.

a. **Cwsmeriaid di-PPM:** Mae'r rhain yn gwsmeriaid sydd wedi bod mewn dyled am fwy na 13 wythnos yn dod i ben ar y diwrnod y gwneir y datganiad, ac sydd mewn cynllun ad-dalu dyled gyda'u cyflenwr ynni neu'n ad-dalu eu dyled tanwydd trwy ddidyniadau 3ydd parti.

b. **Cwsmeriaid PPM:** Gall cyflenwyr hefyd nodi aelwydydd PPM sydd:

- naill ai wedi hunan-ddatgysylltu neu dderbyn credyd Dewisol/Cyfeillgar cyflenwr o fewn y 13 wythnos diwethaf yn dod i ben ar y diwrnod y gwneir y datganiad; neu
- mewn cynllun ad-dalu dyled gyda'u cyflenwr ynni; neu
- yn ad-dalu eu dyled tanwydd drwy ddidyniadau 3ydd parti.*

* Sylwch na ellir defnyddio is-feini prawf 1 a 3 gyda'i gilydd.

* Ni ellir defnyddio is-faen prawf 7 ar y cyd ag is-faen prawf 5 neu is-faen prawf 6.

**Llwybr 3:**Aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac aelwydydd sector rhentu preifat y nodwyd gan berson cofrestredig ar y Gofrestr Meddygon Teulu, Bwrdd Iechyd yn yr Alban, Bwrdd Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG eu bod yn agored i niwed, gyda meddiannwr y gallai ei gyflyrau iechyd gael eu heffeithio'n negyddol gan fyw mewn cartref oer. Rhaid i'r cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, yn anadlol, yn imiwnoataliedig, neu'n gysylltiedig â symudedd cyfyngedig.

**Llwybr 4:**Aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac aelwydydd sector rhentu preifat a atgyfeirir o dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac ALlau gyflwyno cais i'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net lle maent wedi nodi dulliau newydd o nodi aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Mae angen i geisiadau ddangos nifer o ffactorau, gan gynnwys bod y fethodoleg arfaethedig yn fwy effeithiol o ran nodi aelwydydd mewn tlodi tanwydd na'r maen prawf a gynigir o dan Lwybrau 1 a 2. <u>Sylwch nad oes gan Gyngor Caerdydd ddull atgyfeirio o dan Lwybr 4 ar hyn o bryd, er y gellir archwilio hyn yn ystod oes y prosiect.</u>

## Cymhwysedd y cynllun

| |
|---|
| **Mae Cyngor Caerdydd wedi ffurfio partneriaeth ag EON ar gyfer darparu RhCY4 Hyblyg.** Ni fydd y Cyngor ond yn llofnodi Datganiadau ar gyfer aelwydydd cymwys sydd wedi'u hatgyfeirio drwy ein partner darparu ac ni fydd yn gweithio gydag unrhyw drydydd partïon y tu allan i hyn.<br><br>**Dylai pob gosodwr ac asiant rheoli sy'n dymuno prosesu Datganiadau RhCY** Hyblyg gysylltu ag EON: **eoncommunityprojects@eonenergy.com**<br><br>**Dylai pob deiliad tŷ sy'n credu y gallent fod yn gymwys ar gyfer RhCY4 Hyblyg o dan y meini prawf cymhwyso uchod wneud cais drwy wefan EON:**<br><br>**Gwefan:** **EON - gwefan RhCY**4<br>**Ffôn: 0333 202 4422**<br><br>**Noder nad yw bodloni meini prawf cymhwysedd hyblyg y Cyngor, a chyhoeddi Datganiad gan Gyngor Caerdydd, yn gwarantu gosod mesurau. Bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Cyflenwr Ynni a fydd yn darparu gosodiadau.** |

Swyddog ALl (nid 3ydd parti yn gweithio ar ran ALl) fydd yn gyfrifol am wirio, a gwirio tystiolaeth, a chyhoeddi datganiadau. Am unrhyw ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â'r DoF hwn, cysylltwch â:

**Enw:** Llŷr Randles

**Teitl y Swydd:** Prif Swyddog Cynaliadwyedd (Ôl-ffitio)

**Rhif ffôn:** 07973 616183

**E-bost:** llyr.randles3@caerdydd.gov.uk

# Llofnod gorfodol y Prif Swyddog Gweithredol neu berson cyfrifol penodedig.

Bydd Cyngor Caerdydd yn gweinyddu’r cynllun RhCY4 Hyblyg yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2022 (Gorchymyn RhCY4).

Bydd person cyfrifol dynodedig y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys dan RhCY Hyblyg. Bydd y Cyngor yn hysbysu Ofgem o aelwydydd y cyhoeddwyd datganiadau ar eu cyfer trwy'r templed hysbysu datganiad.

Bydd yr holl ddata personol a gesglir neu a brosesir gan Gyngor Caerdydd at ddibenion RhCY4 Hyblyg yn cael ei brosesu a'i storio yn unol â: rhwymedigaethau'r Cyngor o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, polisi diogelu data'r Cyngor, Cod Rhannu Data a chanllawiau eraill Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chanllawiau'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

**Llofnod:** 

**Enw:** Andrew Gregory

**Teitl y Swydd:** Cyfarwyddwr - Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd

**Dyddiad y llofnod:** 01.02.24